Llanw Llŷn

Rhif 269 MEDI 2000 35c

www.penllyn.com/llanw

Mae Llanw Llŷn ar y We fyd eang. Diolch i Simon Jones, Cape1 Pencraig, Llangwnadl am wneud y gwaith o roi'r tudalennau i fyny. Os ewch chi ar y We i'r cyfeiriad www.penllyn.*com/llanw* **mi welwch ddetholiad o rifyn Gorffennaf a Mehefin. Cychwyn ydy hyn a'r gobaith rŵan yw y gellir darganfod ffyrdd o wella'r diwyg a chadw'r tudalennau'n gyfredol. Mae tîm Llanw Llŷn yn awyddus iawn i glywed gan unrhyw gyfrifiadurwr gwirfoddol sy'n deall y pethau yma. Cysylltwch ag un o'r golygyddion neu anfonwch e-bost.**

Mae Simon Jones hefyd yn awyddus i glywed oddi wrth unrhyw un ym Mhen Llŷn, yn gymdeithas neu fusnes, sydd am le ar y We. Ar hyn o bryd os rhowch chi rywbeth fel 'Nefyn' i mewn yn y chwilotydd yr hyn ddaw i fyny yw bythynnod gwyliau yn unig. Nod Simon ydy cael adlewyrchiad teg o Ben Llŷn gynhenid Gymreig a Chymraeg ar y We, fel bod pobl yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'n diwylliant unigryw. Meddai Simon, 'Fydda i ddim ond yn rhoi tudalennau dwyieithog a Chymraeg i fyny o dan Penllyn.com ac, os bydd yna ddigon o gyfeiriadau at bentrefi Llŷn yn y dogfennau, mi ddylai Chwilotyddion fel Alta Vista a Yahoo adnabod y safle yma.' Yr hyn mae'n olygu yw y bydd unrhyw un ar draws y byd sy'n chwilio am gyfeiriadau at Lŷn, yn cael eu cyfeirio at penllyn.com.

Helpu'r Llanw

Cynhelir cyfarfod yn Y Gegin, Neuadd Mynytho ar nos Lun, Medi 25 am 8 o'r gloch i drafod syniadau ar gyfer Y Llanw dros y flwyddyn i ddod.

Cyfle i ddweud eich barn — croeso i bawb

Sioe Tudweiliog 2000

Dau fugail ifanc a gafodd gyn lwyddiant yn Sioe Tudweiliog: Mathew Penri o Laniestyn a Car-on Rhys Roberts o Rydyclafdy.

(Llun: Dewi lvY?l)

Daeth cannoedd o bob cwr o Gymru i Bwllheli ddiwedd Gorffennaf i ddathlu 75 Mlwyddiant Plaid Cymru ac i orymdeithio tu ôl i Seindorf Arian Llanrug trwy'r dref i'r Maes, ble cynhaliwyd rali. Dadorchuddiwyd plac gan Dafydd Wigley ar adeilad y 'temprans' lle cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r Blaid 75 mlynedd yn ôl.

Traddododd Dafydd Wigley ei araith olaf fel llywydd y Blaid, 'Gyda diolch i weledigaeth Saunders Lewis a'i gyfeillion 75 mlynedd yn ôl, mae gennym hanes balch fel Plaid. Rydym yn edrych ymlaen i'w weledigaeth o hunanlywodraeth o fewn Ewrop,' meddai. Daeth y dathliadau i ben gyda chinio a chân gan Dafydd Iwan yng Ngwesty'r Nanhoron, Nefyn.



Dafydd Wigley yn traddodi ei araith olaf fel Llywydd Plaid Cymru yng nghyfarfod dathlu 'r pen-blwydd ym Mhwllheli. (Llun: Nigel Hughes)

fyw yn Llŷn

Gydag anfodlonrwydd ynghylch prisiau olew yn cynyddu ar ôl protestio cryf tros y môr yn Ffrainc ac ar hyd a lled Cymru, beth yw ymateb pobl Llŷn? Mae'r pris olew ar y cyfandir yn dipyn rhatach na'r pris rydan ni'n ei dalu yma ond ychydig iawn o brotestio fu yma hyd yn hyn.

Mae Alwyn Williams, sy'n rhedeg busnes loriau cario o Forfa Nefyn yn credu'n gryf y dylai pobl yr ardaloedd gwledig weithio efo'i gilydd i ddwyn pwysau o ddifri am help i gefn gwlad. Dyna hefyd oedd byrdwn Undeb Amaethwyr Cymru sydd mewn trafodaethau gyda'r 'Road Haulage Association' ar y ffordd orau ymlaen.

Does dim dwywaith nad ydy'r prisiau uchel yma am olew yn taro cefn gwlad fel Llŷn yn drymach nag unrhyw le arall. Ond onid oes rhaid cadw prisiau olew yn uchel i ddiogelu'r amgylchedd? Mae problem yr haenen ôson yn teneuo yn bygwth amgylchedd y byd. Beth yw eich barn chi? Anfonwch air atom yn y Llanw.

Edrych nôl, Camu 'Mlaen

Daeth cannoedd o bob cwr o Gymru i Bwllheli ddiwedd Gorffennaf i ddathlu 75 Mlwyddiant Plaid Cymru ac i orymdeithio tu ôl i Seindorf Arian Llanrug trwy'r dref i'r Maes, ble cynhaliwyd rali. Dadorchuddiwyd plac gan Dafydd Wigley ar adeilad y 'temprans' lle cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r Blaid 75 mlynedd yn ôl.

Traddododd Dafydd Wigley ei araith olaf fel llywydd y Blaid, 'Gyda diolch i weledigaeth Saunders Lewis a'i gyfeillion 75 mlynedd yn ôl, mae gennym hanes balch fel Plaid. Rydym yn edrych ymlaen i'w weledgiaeth o hunanlywodraeth o fewn Ewrop,' meddai. Daeth y dathliadau i ben gyda chinio a chân gan Dafydd Iwan yng Ngwesty'r Nanhoron, Nefyn.



Dafydd Wigley yn traddodi ei araith olaf fel Llywydd Plaid Cymru yng nghyfarfod dathlu 'r pen-blwydd ym Mhwllheli, (Llun: Nigel Hughes)

Talu'r Pris am fyw yn Llŷn

Gydag anfodlonrwydd ynghylch prisiau olew yn cynyddu ar ôl protestio cryf tros y môr yn Ffrainc ac ar hyd a lled Cymru, beth yw ymateb pobl Llŷn? Mae'r pris olew ar y cyfandir yn dipyn rhatach na'r pris rydan ni'n ei dalu yma ond ychydig iawn o brotestio fu yma hyd yn hyn.

Mae Alwyn Williams, sy'n rhedeg busnes lorïau cario o Forfa Nefyn yn credu'n gryf y dylai pobl yr ardlaloedd gwledig weithio efo'i gilydd i ddwyn pwysau o ddifri am help i gefn gwlad. Dyna hefyd oedd byrdwn Undeb Amaethwyr Cymru sydd mewn trafodaethau gyda'r 'Road Haulage Association' ar y ffordd orau ymlaen.

Does dim dwywaith nad ydy'r prisiau uchel yma am olew yn taro cefn gwlad fel Llŷn yn drymach nag unrhyw le arall. Ond onid oes rhaid cadw prisiau olew yn uchel i ddiogelu'r amgylchedd? Mae problem yr haenen ôson yn teneuo yn bygwth amgylchedd y byd. Beth yw eich barn chi? Anfonwch air atom yn y Llanw.

Dyddiadur y Mis

Medi 14 - Cyfarfodydd Pregethu Cape1 Horeb (A). Mynytho, am 2.00 a 6.30 o'r gloch, gyda'r Parchedig Derwyn Morris Jones, Abertawe.

Medi 14 - Noson agored yng nghwmni Staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Neuadd Rhiw am 7:O0.

Medi 21 - Noson Clwb y Neuadd, Mynytho, a chyfarfod o Bwyllgor y Neuadd am 7.30.

Medi 22 - Sgwrs a Chân yng nghwmni Emlyn a Harri Richards yng Nghanolfan Y Ffôr am 7.30.

Medi 25 - Gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Cian, Llangian, am 7 o'r gloch gyda'r Parchedig Aled Jones-Williams, Porthmadog.

Medi 27 - Noson o Bingo yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan am 7.30.

Medi 29 - Canolfan Llaniestyn. Noson lawen yng nghwmni Dilwyn Morgan i ddathlu ugain mlynedd agor y Ganolfan.

Hydref 3 - Cyfarfod Blynyddol Ras Aredig Sarn a'r Cylch yn y Penrhyn Arms, Sam, am 8.00.

Hydref 5 - Cyngerdd Mawreddog i ail-agor Neuadd Goffa Chwilog am 7.30 gyda Chôr Eifionydd, Washington James, Siân Eirian, Gwenan Gibbard, Huw a Steven. Arweinydd: Bethan Jones Parry. Tocynnau: £4, plant £2. Ffôn: (01766) 8 10257.

Hydref 19 - Noson Clwb y Neuadd, Mynytho, a chyfarfod o Bwyllgor y Neuadd am 7.30.

Hydref 20 - Noson yng nghwmni Hogia'r Bryniau yn neuadd y Rhiw am 7.30.

Hydref 28 - Noson o Adloniant yng nghwmni Chicas a Kevin Williams (Radio Champion FM) yng Ngwesty'r Goedlan, Edern, am 7.30. Tocynnau - £4, ar werth yn y Gocdlan - 720425, ac yn Ysbyty Bryn Beryl - 701122. Elw tuag at brynu Sganiwr y Bledren.

Tachwedd 5 - Cyngerdd yng nghapel Rhydbach, Botwnnog: am 8.00 o'r gloch gyda Dewi Wyn Williams - Tenor; Owen Bebb - Baritôn; ac Annette Bryn Parri.

Tachwedd **11 -** Cymdeithas Rhieni Ysgol Botwnnog. Ffair Grefftau yn yr ysgol o 10:00 tan 4:00. I gael bwrdd, ffoniwch 740811 neu 730220.

2001

Ionawr 27 - Noson gyda John ac Alun yn Neuadd Goffa Chwilog. Arweinydd: Dilwyn Morgan. Tocynnau: £4, plant £2. Tocynnau i deulu - 2 oedolyn a 2 o blant - £10.

PEIRIANNYDD

Gwasanaeth trwsio, Prynu a Gwerthu Peiriannau Garddio o bob math yn cynnwys nôl a danfon. Gwasanaeth Garddio, Clirio neu unrhyw beth sydd ei angen. Amcanbrisio am ddim Dim byd yn ormod o drafferth.

Cysylltwch ag

EMYR

ar

01766 810642



Y LLANW

DRWY'R POST

Cysylltwch â:
Luned Jones, Gwyndy, Llangïan, Pwllheli.

£ 8.50 i'w dalu ymlaen llaw yn ystod wythnos gyntaf Ionawr pob blwyddyn [er hwyluso'r drefniadaeth].

Chwith iawn gcnnym yw gorfod derbyn na chawn gyfraniad i'r golofn gan Gwilym, Brynrhydd. Rocdd ei gerddi yn dderbyniol iawn gan bawb. Canai yn hyfryd am fyd natur ac am arferion y tir.

Roeddwn yn ei led adnabod fel ffarmwr a chyfrannwr i'r *l,lanw* ar faterion amaethyddol. Roedd yn ysgrifennwr rhwydd ac yn dangos ei fod yn deal1 ei fatcrion ac yn cu trafod yn ddcallus a diddorol.

Ar ôl hyn deuthum i'w adnabod yn dda. Byddem yn mynychu Dosbarthiadau C.A.G. mewn gwahanol fannau yn Llŷn. Ar y dechrau mynnai ddal na allai ef ysgrifennu dim ond rhyddiaeth. Ond er syndod i bawb ohonom dechreuodd brydyddu. Daeth ei gcrddi yn boblogaidd gan lawerocdd. Yn wir roeddem yn ystyried ceisio ci berswadio i gyhoeddi ei waith mewn llyfryn.

Mae Stan Jones, wedi llunio tribannau er cof. Dengys y tribannau hyn sydd yn tystio, mewn modd celfydd a dilys i'r ffaith fod Gwilym yn uchel iawn ei barch gan bawb yn Llŷn.

Er Cof am Gwilym Brynrhydd

Colli

Colli'r amaethwr rhadlon
A'i gwmni oedd yn foddion;
Yng Nghlwb yr Efail teimlir chwith
Heb ddarlith ar ci noson.

Ceid sôn am lwyn a mynydd
Yng nghwmni yr awenydd;
Barddoniaeth Gwil oedd yn y pridd
Wrth rodio'r ffridd a'r meysydd.

Mae'r awen wcdi tewi
A cholofn Dic fydd hebddi;
Hiraethu wnawn am fardd "Bryn Rhydd"
A'r *Llanw'n* brudd o'i golli.

Stan Jones

Dyma delyneg o law un a ŵyr yn dda y gofynion. Gadewir i's darllenydd ei deal1 a'i mwynhau drwy ci darllcn yn feddylgar. Pair y gerdd, neu ergyd y gcrdd inni gofio am line11 gan Robert Burns yn y gerdd ddiangof a ganodd wedi iddo rwygo yn ddiarwybod nyth y llygoden wrtharedig. Wrth weld diwedd trychinebus y llygoden a'r dryllio creulon ar ei hol1 obeithion, gwelai'r bardd arwydd o beth sydd o flaen pob dyn a llygoden; meddai:

"An' forward tho' I canna see,
1 guess an' fear"

Deud yr un peth yn gynnil, gynnil mae Gwyneth Williams hefyd.

"Dim ond Deilen.. ."

Tosturi deimlais wrth dywelcd di
Yn cwympo'n oediog ar fy llannerchi.
Ai ti yw'r hynaf un o'r cnwd
Ddatblygodd ddechrau'r haf' yn tlagur brwd?

Neu a ddaeth lludded i dy gorffyncrin
Tra'n dawnsio'n wyllt i rythmau'r gwyntoedd blin
A'th gyd-gyfoedian gyda'u gwawd a'u sen
Yn gwamal sisial fod dy oes ar ben?

Ond anesmwythyd sydd yng ngwraidd fy mod
Cans gwn mai cennad wyt – mae'r gaua'n dod.

Morfa Nefyn **Gwyneth Williams**

Mae John Stoddart yn mcddu ar haen o ysgafnder a doniolwch a dry sgwrs ar y ffôn yn fwynhad. Daw hyn i'r wyneb weithiau yn ei gerddi. Y syniad gan lawer yw mai prudd a thrymaidd a fu bywyd Iesu Grist ar ei hyd. Ond mae llaweroedd o feirdd enwog yn synio'n wahanol, ac wedi canu am droeon ysgafn a llawen ym mywyd ac athroniaeth Iesu Grist. Yn ei gerdd ddifyr a hyfryd mae John Stoddart wedi llwyddo i roi darlun inni o'r Iesu llawen.

Biti na allai ein Cyhoeddwyr Llyfrau weld y cyfoeth o gerddi sydd gan feirdd o'r radd flaenaf yn eu cypyrddau fel y gellid eu cyhoeddi – gyda chymorth. Cymorth a estynir mor barod i rai o'r beirdd niwlog ac anniddorol. Oes raid ennill Y Gadair Genedlaethol cyn y caiff y beirdd talentog help llaw? Mae yna drysorfa lawn yng nghypyrddau John Stoddart y dylid eu cyhoeddi ar bob cyfrif.

Mor ryw drist?

Ai cyfleustra ynteu gormes yr odl 'droes Grist
ein beirdd emynyddol yn dragwyddol drist?
Daeth i'r cynefin a dolur, y gofidus ŵr,
byliau o chwerthin, ar brydiau, bid siŵr!

Yn y briodas yng Nghana, rhaid bod gwên ar ei tin
o weld claearni'r dŵr yn troi'n orfoledd gwin;
ar dro'n ddi-au, ceid gwawch o chwerthin taer
ar gorn trwstaneiddiwch yng ngweithdy'r saer.

A'i draed yntau'n weddaidd ar y mynyddoedd,
siawns
nad oedd cân ar ei enau'n gyfeiliant i'w ddawns,
cans dawns a chân ddisgwyliai plant y llawr
gan destun newyddion o lawenydd mawr.

Enciliai i'r mynydd yn dawel wrtho'i hun
i guddio'i ddigrifweh - 'nôl damcaniaeth rhyw
ddyn*;
os f'elly, byddai'r tincial yn yr awyr iach
mor ddiniwed o glir â chwerthin baban bach.

John Stoddart

* *G.K. Chesterton*

Mae cof gan lawer o'r rhai hynaf ohonom am helynt Dunkirk ym 1940. Yr oedd byddin Prydain wedi gorfod ildio'n ôl ac yn wynebu'r môr, a byddin yr Almaen ar eu gwarthaf. Roedd yn sefyllfa erchyll.

Ymhlith dros dri than-mil o filwyr ar y traeth, yr oedd nifer sylweddol o Gymry yn eu plith mae'n siŵr. Eu hunig obaith oedd croesi'r sianel i Loegr. Hanes y digwyddiad dychrynllyd yw testun englynion R.J. Penmorfa.

Ond daeth pob math o gychod a llongau ar draws y sianel i'r traethau i'w cyrchu i ddiogelwch yn eu plith yr oedd llongau masnach y glannau (Costars) llongau-fferi a chychod o bob maint a siâp. Canodd y bardd englyn i'r Royal Daffodil. Roedd hon yn un o longau-fferri'r Mersi o Lerpwl. Ar hon cofiwn yn dda groesi o Benbedw i'r Piar yn Lerpwl – cyn cloddio'r twnel mawr. Roedd hon yn gallu cario nifer mawr o ddynion ar ei dec – y Royal Daffodil II oedd hon. Yn y Rhyfel Mawr Cyntaf llwyddodd ei rhagflaenydd y Royal Daffodil I i suddo llong-danfor Almaenig!

Mae R.J. wedi canu nifer o englynion yn cynnwys un am y Royal Daffodil II. Dyma dair o'r englynion cyffrous rheiny gan R.J. Jones, ac un i'r Royal Daffodil II.

Cofio Dunkirk 1940

Llu arfog ddiarfogwyd – wedi'r drin
Un fyddin a faeddwyd.
Hogia' o Walia welwyd
Yn wŷr llesg ger y môr llwyd.

Heb ganfod lle'i gysgodi – o niwed
Angheuol fwledi,
Arwyr heb weld tosturi
Ar y llain oedd ger y lli.

O'u hachos aeth man gychod – rhai cannoedd
I'r cyni a'r difrod.
Bradwyr gwlatgar a pharod
Hyd y dwfn yn mynd a dod.

Y Royal Daffodil II

Ddydd angen fe ddiengodd – enwog gwch
Am Dunkirk, a rhywfodd
Yn ffau yr ing ni chyffrôdd,
A'n hogiau gartref ddygodd.

Penmorfa **R.J.** Jones,

Dywed Ifan Pritchard awdur y gerdd gampus hon beth o hanes Y Lasynys, cartref awdur enwog "Y Bardd Cwsg" sydd yn adlais o waith Ysbaenwr ac arall. Dywed y bardd ei fod wedi ymweld â'r Lasynys – sydd bellach wedi ei adnewyddu a'i adfer. Diddorol yw sylwi fod cysylltiad rhwng y Lasynys â rhywun o Rhydyclafdy. Yn ôl Ifan Pritchard roedd gan Elis Wyn faint neu sedd yn y mynydd lle yr elai i fyfyrio a chyfansoddi.

Cysylltiad arall â Llŷn yw mai Ymgymerwr o Nefyn a fu'n gyfrifol am y gwaith o adfer Y Lasynys – rhag ei fod yn dirywio a mynd yn furddun. Cerdd bwysig a diddorol yw hon a diolchwn i'r bardd o ardal y Sarn yn Llŷn amdani.

Sedd Elis Wynne

Mae'r bardd ynghwsg a'i sedd yn wag
A'r llwch yn gwilt clasurol
Geiriau tyn fu'n croesi'r ffin
Cyn ffurfio'n win diferol.

0 gwr y sedd y tardd y gwin
Ffrydlif ei anian effro:
Elis Wyn a'i gampwaith coeth
Grawnwin y doeth gadd yno.

Yn encil deg y graig lwyd
Bu oriau o fyfyrio;
Ei ddawn a'i ddysg
Adwaith yr hir ddiwyllio.

Mae'r tŷ'n gof i'r ceinder fu
Yn dyst diamwys drysor;
Y meini llwm ar eu newydd wedd
A'r sedd yn wys i lenor.

Ifan Pritchard

Diolch i'r beirdd am gael medi cynhaeaf aeddfed eu hawen. Deuant yma drwy'r post ac ar y ffôn. Gwaith pleserus yw eu didol a'u rhoi ger bron y darllenwyr. Rhif y ffôn yw 740289, yn y Lôn Las, Mynytho.

Prynwch y 'Llanw' bob mis

Clwb Pêl-droed Pwllheli Tymor 2000 – 2001

Faint ohonoch chwi sydd yn cofio gweld Clwb Pêl-droed Pwllheli yn arwain un o gynghreiriau pêl-droed lleol? Dim llawer ohonoch mae'n siŵr ac yn bendant neb dan ugain oed. Wel, am y tro cyntaf ers tua ugain mlynedd enw Pwllheli sydd ar frig Cynghrair Gwynedd ar ddechrau mis Medi.

Wrth gwrs mae'n rhaid cofio nad yw'r Gynghrair yn cael ei hennill tan fis Mai ac felly mae yna fisoedd o ymdrech o flaen y chwaraewyr ond, wedi dweud hynny, mae'n braf edrych ar y tablau yn y papurau lleol a gweld enw'r Clwb ar y brig ac yn y penawdau ar y tudalennau cefn.

Cynghrair Silver Star Gwynedd
10 Medi 2000

	CH	E	Cyf	C	Pt
1. Pwllheli	6	6	0	0	18
2. Felinheli	5	4	1	0	13
3. Llanrua United	5	4	0	1	12
4. Boded&	5	4	0	1	12
5. Bl Amateurs	6	3	1	2	10
6. LlangefniTown	5	3	1	1	10
7. Nefyn United	6	2	1	3	7

Pan oedd y chwaraewyr yn cyfarfod ar gyfer sesiynau ymarfer ym mis Gorffennaf dywedodd Bryn, Twm a Dylan (y tîm rheoli) wrthynt nad oedd amheuaeth fod potensial yn y sgwad i fod yn gystadleuol ac mae beth oedd ei angen oedd cael dechrau da i'r tymor er mwyn codi hyder a gosod sylfaen gref, rhywbeth na lwyddwyd i'w gyflawni y tymor diwethaf. Er nad yw'r tîm wedi chwarae cystal ag a wnaethpwyd yn ambell gem y tymor diwethaf, mae'r sylfaen a obeithiwyd amdano wedi ei gosod gyda chwe buddugoliaeth yn chwe gem gyntaf y tymor.

Roedd yn fantais cael y tair gem gyntaf adref ar y 'Rec' a llwyddwyd i guro yr hen elynion Caernarfon o 3-0; dilyn hynny trwy chwalu Penrhyndeudraeth o 8-0, ac yna ymladd yn galed i guro Llangefni, un o'r timau cryfau yn y Gynghrair, o 2-1. Roedd y tair buddugoliaeth yma yn gymorth i baratoi'r tîm ar gyfer y daith fer ond anodd i Gae'r Delyn i chwarae Nefyn Utd, sydd wedi esgyn i'r Gynghrair y tymor hwn. Roedd y ddau dim yn awyddus i guro'r gem 'darbi' yma ac, yn haeddiannol, Pwllheli aeth a hi o 3-2, gyda Nefyn yn sgorio ddwywaith yn hwyr yn y gem i greu diweddglo cyffrous.

Taith i Fae Colwyn ddilynodd hyn i gyfarfod 1 thim arall a esgynodd i Gynghrair Gwynedd ar ddiwedd y tymor diwethaf. Un gôl i ddim oedd hi y tro hwn gyda gôl Roy Kip yn ddigon i ennill y triphwynt.

Nôl ar y 'Rec' y Sadwrn canlynol cafwyd un o 'gemau mawr' cyntaf y tymor. Llanrug Utd, tîm arall gyda record cant y cant oedd yr ymwelwyr ac, ar ôl 40 munud o'r gem byddai pawb oedd yn bresennol yn amau mai record Llanrug oedd am barhau, gyda'r ymwelwyr yn feistri ar dîm Pwllheli. Fodd bynnag sgoriodd Peter Griffith funud cyn yr egwyl ac, yn yr ail hanner, y tîm cartref oedd â'u cynffonau i fyny. Ychwanegodd Peter Griffith dair arall yn y cyfnod yma i sicrhau buddugoliaeth o 4-2 i'w dim.

Pwy ŵyr beth all ddigwydd dros weddill y tymor, ond ni ellir bod wedi gobeithio na chael dechrau gwell. Gobeithio bod y chwaraewyr ifanc sydd yn y tim bellach yn cyrraedd eu potensial ac os gallant gynnal ac adeiladu ar y dechrau da yna gallai tymor llawn cyntaf y mileniwm newydd fod yn dymor addawol i Glwb Pêl-droed Pwllheli.

Tîm Pêl-droed Nefyn

Dechreuad cymysglyd gafodd hogiau Nefyn wrth wynebu sialens newydd yng Nghynghrair Gwynedd. Ar ôl colli o 4-0 ar Gae Eithin Duon yn erbyn Llanrug yn eu gem gyntaf cafwyd buddugoliaeth o 2-1 dros Gaernarfon gyda goliau gan John Williams a Jonathan Foskett. Ar ôl hynny trechwyd y Bermo 3-1 gydag Alan Jones ac Owain Gwilym yn rhwydo.

Ar nos Fercher, Awst 30 roedd torf enfawr wedi dod i wylio'r hen elynion, Pwllheli -- arweinwyr y Cynghrair – yn herio'r Gleision. Gyda'u profiad a'u dawn agorodd Pwllheli fwlch o dair gôl yn fuan ar ôl hanner amser, diolch i Gwion Roberts, Dylan Thomas a David Griffiths. Gydag ugain munud yn weddill rhwydodd Owain Roberts i ddod a llygedyn o obaith i Nefyn, a phan sgoriodd Alan Jones yr ail gôl i'r tîm cartref roedd gobaith efallai y medrid unioni'r sgôr – ond daeth y chwiban olaf yn rhy fuan. Piti garw am yr anaf drwg i John Gwynfor a'i gorfododd i adael y maes yn yr ail hanner. Gallasai ei bresenoldeb ef yn hawdd fod wedi bod yn allweddol wrth i Nefyn bwyso am y drydedd gôl.

Croesawyd Llanrwst ar ol hynny ond, gyda sawl aelod o'r garfan wedi anafu neu ddim ar gael, bu'n rhaid bodloni ar gem gyfartal – 3-3. Sgoriwyd goliau Nefyn gan Alan Jones, Owain Roberts a Dafydd Jones.

Clwb Criced Pwllheli Awst 200

Rhes gefn: Chris Moore a Michael Hughes (Dan 14)
Blaen: Robert Cooper (Dan 12; Ben Jones a Ben Dabson (Dan 13)
(Llun: Dewi Wyn)

Gorffennodd y Tîm Dan 15 yn ail yng Nghynghrair Eryri. Cafwyd 6 buddugoliaeth a dim ond 2 gem a gollwyd yn ystod y tymor. Chris Moore a Ben Dabson oedd y bowlwyr a gymerodd fwyaf o wicedi tra sgoriodd y capten Dafydd Dabson record o 285 o rediadau gyda'r bat. Cafwyd cyfraniadau o nod hefyd gan Dewi Davies a Ben Jones.

Ennill 3 a cholli 5 gem oedd hanes y Tîm Dan 13, gan ddod yn drydydd yn eu grŵp. Yn ystod y tair gem olaf o'r tymor gwelwyd perfformiadau gorau'r tymor gan Ben Jones (50 heb fod allan yn erbyn Bodedern) a Ben Dabson (6 wiced am 19 rhediad yn erbyn Bethesda). Mathew Pengelly gymerodd fwyaf o wicedi a Ben Jones sgoriodd y mwyaf o rediadau yn ystod y tymor. Disgleiriodd y wicedwr Ceiri Rowlands hefyd drwy lwyddo i gael 19 allan, record arall i'r adran iau.

Fel tystiolaeth i lwyddiant c hwaraewyr ifanc y clwb, bu 5 ar deithiau gwahanol gyda charfanau criced Eryri (Gwynedd, Môn a Chonwy). Teithiodd Chris Moore a Michael Hughes i Wyl Genedlaethol Dan 14 yn Aberystwyth. Yn Ne Cymru a Swydd Derby y bu Ben Dabson a Ben Jones yn cynrychioli Eryri o Dan 13 ac wedyn, o Dan 12 dewiswyd Robert Cooper a Ben Jones eto i garfan Eryri mewn twrnament yn Ne Cymru. Llwyddodd Ben Jones i fod y bowliwr mwyaf llwyddiannus y tîm gan gymryd 11 wiced i gyd, a 5 wiced am 25 o rediadau mewn un gêm. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Yn anffodus brwydr yn erbyn disgyn i bedwaredd adran Cynghrair Criced Gogledd Cymru sydd o flaen Tim Cyntaf y clwb, ar ôl colli eu pedair gem ddiwethaf. Yr unig chwaraewr i ddisgleirio yn ddiweddar oedd Neil Williams pan sgoriodd gant gwych yn erbyn Y Bala, pan gollwyd gem glos. Mae'r tair gem sydd ar ôl yn rhai anodd a bydd pob pwynt yn bwysig.

Saif y Tîm Dydd Sul yn ail yn ail adran Cynghrair Criced Gwynedd, un pwynt y tu ôl i Fochdre ar ôl colli yn drwm iddynt ar Sadwrn Gwyl y Banc. Gydag un gem ar ôl mae dyrchafiaeth i'r adran gyntaf yn y fantol rhwng 3 thîm. Mae Stuart Webley yn parhau i sgorio'n drwm gyda'r bat ac mae'r chwaraewyr ifanc yn disgleirio o dan arweiniad medrus y capten Simon Williams.

Mae'n galonogol gweld cymaint o chwaraewyr ifanc yn chwarae i'r Tim Cyntaf a'r Ail ac mae eu datblygiad parhaol yn argyhoeddi'n dda i ddyfodol y clwb.

Dydd o Chwaraeon Capeli Henaduriaeth Llŷn ac Eifionydd

Tîm Pêl-droed Llanbedrog, Huw, Osian, Mark, Owain, Dylan, Eifion

Ail Dîm Nefyn

Menter newydd yw rhedeg ail dîm yn Nefyn a, chyda cymysgfa o hen bennau a hogiau ifanc o ardaloedd Pen Llŷn yn mwynhau eu hunain ac yn cael pleser ar bnawn Sadwrn, mae Gareth Williams (Uwchmynydd), rheolwr y tîm yn hyderus y bydd hyn o fudd i dim cyntaf Nefyn yn y dyfodol.

Ar ôl colli'r gem agoriadol 2-0 yn erbyn Pwllheli, cafwyd dwy fuddugoliaeth gampus dros Lanystumdwy a Harlech. Cododd hyn yr hogiau i safle yng nghanol y tabl, ond yna cafwyd curfa go iawn o 8-2 yn Nhal-y-sarn a, heb amheuaeth, dyma dîm fydd ymhlith ceffylau blaen y Cynghrair pan ddaw'r tymor i ben. Rhaid canmol perfformiadau Bryan Mathews a Martin Jones, dau chwaraewr egnïol dros ben – a chyda Meilir yn llawn brwdfrydedd ar yr asgell dde, Alan Francis a Barry Griffiths yngadarn yn y cefn, a'r 'hen ben' Eric Jones yn feistr yn y gôl, mae'n argoeli'n dda.

Dyddiadur Dwy Ganrif

Bydd y rhai ohonoch chi a gafodd flas ar y gyfres 'Hen Gymeriadau' gan Gwilym Felin yn y Llanw yn siŵr o fwynhau'r gyfres newydd hon lle mae o'n edrych ar rai o'r digwyddiadau mwyaf difyr yn hanes Lŷn dros y ddwy ganrif ddiwethaf.

Cloddio am fwynau yn Lŷn

Yn ôl yr ystadegau, yn 1827 y darganfuwyd y manganîs cyntaf yn ardal y Rhiw ac mewn ffrwd fechan, sef ffrwd y Nant, yr oedd hynny. Nid oes cofnod yn dweud ai trwy ddamwain ynteu trwy ymchwiliad y bu i'r manganîs ddod i'r amlwg ond un peth sydd yn sicr: bu i'r darganfyddiad chwyldroi ardal fechan gymharol dlawd.

Cafodd manganîs ei ddarganfod ym Mhrydain cyn belled yn ôl â 1774 a buan iawn y dysgwyd am ei rinweddau. Gellir ei ddefnyddio i galedu haearn, a'r sodiwm a'r potasiwm sydd ynddo i gynhyrchu diheintydd.

Gan mai ar dir yn perthyn i'r Cyrnol Edwards, Nanhoron y darganfuwyd y manganîs cyntaf yn Rhiw, mae'n wir dweud bod ei ddiddordeb ef ynddo yn fawr a chyflogodd ŵr o'r enw Andrew Burt i arolygu'r darganfyddiad ar ei ran. Prynodd Andrew Burt, Neigwl Ganol yn 1827 er mwyn adeiladu melin ar gyfer malu'r garreg manganîs Mae'n debyg ei fod wedi sylweddoli mai manganîs oedd yr hyn a ddarganfuwyd ond ei fod wedi cadw hynny'n gyfrinach iddo'i hun nes y daeth cadarnhad o'r swyddfa brofi yn Llundain. Er bod Burt wedi meddwl am elwa o gynllun y felin, fel arall y bu gan fod yn well gan y prynwyr fanganîs mewn ffurf powdwr yn hytrach na cherrig, ac aeth cynlluniau'r hen frawd i'r gwynt!

Gyda dyfodiad hydref 1828 daeth asiant mwyngloddio ynghyd â mwynwr profiadol i'r ardal i hyfforddi'r trigolion yn y modd i olchi a glanhau'r √manganîs ac erbyn 1830 cofnodir bod oddeutu hanner cant o ddynion o'r cylch yn gyflogedig yn y gwaith.

Mewn basgedi ar gefn mulod y câi'r cynnyrch ei gario i'r traethau, er mwyn ei allforio i Lerpwl a Llundain. Cafwyd caniatad i groesi tir y Nant ar gyfer llwytho ym Mhorth Ysgo, ond i Abersoch ran amlaf y cludid y llwythi, ac weithiau i Borthdinllaen.

Yn Rhagfyr 1828 rhoddodd Arglwydd Newborough brydles bl wyddyn i ganiatau mwyno ym Mhenarfynydd ond deallir erbyn heddiw na chafwyd mwynau ar dir y fferm. Cafwyd prydles un flynedd

Un o'r amryw geudyllau **y n Nant-y-Gadwen**

ar hugain gan y goron yn 1844 i fwyno dau can erw o dir comin mynydd y Rhiw. Deiliaid y brydles honno oedd Robert Williams, meistr llong o ardal y Rhiw, a'i bartner, William Jones, un a fu yn reolwr mwynfeydd y Penrhyn Du, Abersoch. Bu'r bartneriaeth yn un dda a llwyddiannus yn ôl pob sôn. Yn yr un flwyddyn cafodd tri dyn lleol arall brydles o un flynedd ar hugain i chwilio am fwynau yn Baron Hill. Yn ôl cyfrifiad 1841, trigai mwynwr yn ***Chimney Hole,*** neu Cimle fel y'i adwaenir erbyn heddiw. Bwthyn bychan ym mhlwyf Llanfaelrhys oedd ***Chimney Hole*** ac yn ôl enw anghyffredin y mwynwr ymddengys mai Sais ydoedd. Erbyn cyfrifiad 1851, roedd ef a'i deulu wedi symud o'r ardal.

Cafodd 229 tunnel1 o fanganîs ei grynhoi yn 1829 ond 70 tunnel1 yn unig a gafodd ei drosglwyddo yn 1830. Erbyn 1830 roedd gair wedi mynd ar led bod cyfoeth i'w ennill o ddaear y Rhiw a bu i lawer o ddieithriaid ddod i'r ardal i geisio eu ffortiwn. Pobl mynd a dod oedd y mwyafrif ohonynt ac efallai nad oedd croeso trigolion y Rhiw mor gynnes ag y dylai fod; wedi'r cwbl, eu heiddo hwy oedd unrhyw elw a ddôi o ddaear eu bro.

Nid cymdeithas y Rhiw yn unig a fyddai yn elwa o enillion ynghlwm â'r cloddio. Roedd y meistri tir hefyd am fynnu eu siâr. Fe1 yr awgrymais yn barod, roedd y Cyrnol Edwards, Nanhoron â diddordeb yn y gweithgareddau; hefyd Asheton Smith, stad y Faenol a'r Arglwydd Newborough, Glynllifon, y tri am dafell go helaeth o'r elw.

Wrth edrych trwy gyfrifiad 1861, gwelir bod llawer o boblogaeth y Rhiw yn fwynwyr, yn ogystal â bod yn ffermwyr a physgotwyr. Dynion fel Robert Jones, Fourcrosses Fawr, mwynwr a pherchennog gwaith manganîs Thomas Bilshaw, Sais o Lerpwl a oedd yn lletya yn Nhan-y-Graig; Owen Williams, Tan-y-Graig ac Isaac Roberts, Bwlch-y-Garreg. Yn ôl y sôn, y ddau olaf yma fu'r rhai cyntaf i gloddio rhan orllewinol Clip y Gylfinir. Yng nghyfrifiad 1861 hefyd, cofnodir bod gwraig 35 oed ynghyd â'i mab pedair ar ddeg yn fwynwyr.

Erbyn 188 l, mae'n ymddangos o'r cyfrifiad mai tri yn unig a oedd yn fwynwyr: Owen Williams ac Isaac Roberts a enwyd eisoes ac un arall, a gwelir bod y tri yn perthyn i'w gilydd trwy briodas.

Ni cheir sôn am waith manganîs yn y Rhiw yng nghofnodion mwynfeydd Cymru rhwng 1872 ac 1885 ond mae peth dirgelwch ynglŷn â hyn gan fod y gwaith o gloddio yn y Rhiw wedi ailgydio yn 1880 ond yn danddaearol erbyn hyn. Yn 1887, Isaac Roberts ac Owen Williams oedd perchenogion gwaith Benallt abuont yn dal i weithio yno tan 1895.

Bu gwaith y Rhiw mewn bri o 1886 hyd at 1893 a'r Nant o 1891 – 1893, gyda dau ddyn yn gweithio yno. Aeth un i geisio sefydlu pwll yn Nhy'n Llan ond methiant fu'r ymdrech honno. Yn ôl map Ordnans 1888. dangosir Rhiw a Benallt fel pyllau ond fel hen chwarel y dangosir y Nant. Dangosir un pwll yn ymyl Tyddyn Meirion a gelwir y safle yn Cae Manganese. Cafodd y map ei gywiro yn 1899 a gwelir bod tri phwll ac un lefel yn Rhiw a Benallt.

Daeth dirwasgiad i'r gwaith mwyno oherwydd mewnforio manganîs cyfoethocach ei ansawdd a hefyd llawer rhatach, ac erbyn 1900 roedd y mwyngloddio wedi dod i ben yn y Rhiw er nad oedd wedi ei ollwng yn gyfan gwbl.

Bu i'r gwaith cloddio fod mewn bri wedyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ond cyfnod arall oedd hwnnw.

I'w barhau.

Gwilym Felin Tudweiliog

Gwneuthrwraig Dillad
Cywiro Dillad
Dodrefnu Ysgafn

Anwen Davies

Plasyngheidio, Boduan, Pwllheli
Gwynedd LL53 8YL
Ffôn: 01758 720327